

Partneriaethau Mentrau Lleol

Diben y papur hwn yw rhoi'r diweddaraf am wersi a ddysgwyd wrth roi'r Gronfa Twf Lleol ar waith yn Lloegr. Cyflwynir rhai syniadau cychwynnol yn ymwneud â meysydd allweddol sy'n berthnasol i fodelau Buddsoddi Rhanbarthol posibl yng Nghymru yn y dyfodol, a gwahoddir eich sylwadau ynghylch y rhain.

Mater

1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mai, ystyriodd y Grŵp bapur yn ymwneud â model buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol. Cyflwynwyd asesiad cychwynnol o rôl Partneriaethau Mentrau Lleol yn Lloegr. Gofynnodd y Grŵp am gael y diweddaraf ynghylch y gwersi a ddysgwyd ar gyfer ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

Cefndir

2. Cafodd Partneriaethau Mentrau Lleol eu sefydlu yn 2010, ac ar y cychwyn eu bwriad oedd bod yn bartneriaeth strategol, gan lywio twf ar sail ranbarthol. Ni chawsant eu sefydlu i fod yn drwm ar adnoddau o safbwynt eu gweithrediad, oherwydd y bwriad oedd cyflwyno'r rhaglen trwy gyfrwng partner-sefydliadau. Ers 2014, mae Partneriaethau Mentrau Lleol wedi llunio Bargeinion Twf Lleol gyda Llywodraeth y DU ac wedi rheoli cyllid cysylltiedig.
3. Mae nifer o adolygiadau wedi'u cynnal ar berfformiad Partneriaethau Mentrau Lleol ers iddynt gychwyn. Y rhai allweddol yw adolygiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2016¹ a 2019², Adolygiad Cenedlaethol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol: *Strengthening Local Enterprise Partnerships* yn 2018³ ac, yn fwyaf diweddar, adolygiad cynnydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar Bartneriaethau Mentrau Lleol, a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf⁴.
4. Ymhellach, mae adroddiad diweddar gan rwydwaith grwpiau cymunedol yn y DU wedi cael cryn sylw yn y wasg. Mae adroddiad yr ymgyrch Communities in Charge⁵ eisiau i unrhyw gyllid adfywio economaidd ar ôl Brexit gael ei roi yng ngofal cymunedau. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys aildewis Byrddau Partneriaethau Mentrau Lleol yn Lloegr er mwyn adlewyrchu'n well farn rhanddeiliaid nad ydynt mewn busnes a sefydlu paneli dinasyddion cyfochrog ar draws Partneriaethau Mentrau Lleol er mwyn sicrhau bod barn y gymuned ehangach yn cael ei deall a'i chynnwys mewn Strategaethau Diwydiannol Lleol.

¹ [Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol – Local Enterprise Partnerships \(2016\)](#)

² [Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol – Local Enterprise Partnerships: an update on progress \(2019\)](#)

³ [Adolygiad Cenedlaethol: Strengthening Local Enterprise Partnerships \(2018\)](#)

⁴ [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin: LEPs progress review \(2019\)](#)

⁵ [Communities in Charge; Give people the power to prosper after Brexit \(2019\)](#)

Casgliadau allweddol

5. Yn fras, gellir dosbarthu'r casgliadau dan y penawdau canlynol (a ddefnyddir yn bennaf gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus):
 - Trosolwg (cenedlaethol): yr angen i ddeall sut a ble y caiff buddsoddi ei wneud, a pha effaith a gaiff hynny'n rhanbarthol ac yn genedlaethol (h.y. systemau monitro a gwerthuso cadarn a defnydd doeth o'r data hwnnw).
 - Craffu (rhanbarthol): yr angen i sefydlu safonau llywodraethu a sicrwydd (a'u monitro'n genedlaethol), a'r angen i gael trosolwg o benderfyniadau buddsoddi, capasiti priodol a llawer o dryloywder.
 - Strwythur o gyrff rhanbarthol: yr angen i gael model cyson, osgoi gorgyffwrdd ffiniau daearyddol, a bod â phartneriaethau eang a chynrychiadol (o ran sectorau ac o ran amrywiaeth).
 - Capasiti i gyflawni: Pennu bylchau mewn capasiti a gallu cyn dyrannu cyllid, meithrin sgiliau arwain a rheoli rhaglenni fel y gellir rheoli prosiectau / rhaglenni cymhleth yn fwy effeithiol.
 - Telerau cyllido: yr angen i gael cyfres glir o ganlyniadau sy'n gysylltiedig â rheoli perfformiad a'r angen i ddal gafael mewn ysgogiadau ar gyfer cymelliadau/sancsiynau, cydnabod proffiliau cyllid dros oes y rhaglen fuddsoddi (bod yn hyblyg rhwng blynyddoedd), ystyried costau refeniw'n fwy trylwyr, ac ymgorffori costau capasiti.
6. Mae Atodiad A yn crynhoi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn Atodiad B ceir casgliadau allweddol yr adolygiadau eraill a gynhaliwyd ar Bartneriaethau Mentrau Lleol. Mae Atodiad C yn ceisio llunio rhai goblygiadau ar gyfer dull Cymru. Mae'n amlwg fod llawer i'w ddysgu yn sgil dull y Partneriaethau Mentrau Lleol. Ceir rhai syniadau cychwynnol yn Atodiad C ynglŷn â sut y gellid defnyddio'r casgliadau i gyfarwyddo dull cyflawni rhanbarthol Cymru. Ymhellach, mae Atodiad C yn cynnwys barn a fynegwyd yng nghyfarfod mis Mai RIWSG.

Y camau nesaf

7. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at gasgliadau hyd yn hyn yn ymwneud â gweithredu Partneriaethau Mentrau Lleol, gan ategu'r papur a gyflwynwyd gerbron y cyfarfod blaenorol (Mai 2019) lle y cafodd gwahanol ddulliau o ymdrin â buddsoddiadau datblygu economaidd rhanbarthol eu cymharu.
8. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r nod yw ymweld â detholiad o Bartneriaethau Mentrau Lleol i drafod eu profiad o roi gweithgareddau buddsoddi economaidd rhanbarthol ar waith er mwyn cynorthwyo'r dasg o ddatblygu'r dull gweithredu yng Nghymru yn y dyfodol.

9. Eisoed, mae ein gwaith gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i archwilio trefniadau llywodraethu aml-lefel yng Nghymru wedi rhoi gwaith datblygu manwl ar y gweill i osgoi nifer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn y model Cronfa Twf Lleol/Partneriaethau Mentrau Lleol a chyflwyno argymhellion wedi'u teilwra ar gyfer dull Cymru yn y dyfodol.
10. Bydd gwaith manylach yn cael ei wneud fel rhan o'r is-grŵp Gweithredu a Chyflawni. Bydd y gwaith hwn yn ystyried pob un o'r agweddau cyflawni gwahanol ar gyfer model Cymru ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol (e.e. llywodraethu, cynrychiolaeth, capasiti, gwneud penderfyniadau, trosolwg ac ati).

Atodiad A: Crynodeb o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Local Enterprise Partnerships: progress review* (Mehefin 2019)

Rhif	Casgliad	Argymhelliad
1	Er gwario hyd at £12 biliwn o arian trethdalwyr, nid oes gan yr Adran unrhyw ddealltwriaeth wirioneddol o'r effaith y mae'r Gronfa Twf Lleol wedi'i chael ar dwf economaidd lleol.	Yn absenoldeb gwerthusiad cenedlaethol, dylai'r Adran ddefnyddio'r data perfformiad a gaiff gan Bartneriaethau Mentrau Lleol i greu darlun cenedlaethol o'r hyn sydd fwyaf effeithiol o ran hybu twf, a defnyddio hyn i gyfarwyddo cynlluniau ar gyfer gwerthuso Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
2	Mae'r Adran wedi gwella'r fframwaith sicrhau ar gyfer Partneriaethau Mentrau Lleol, ond mae llawer i'w wneud eto cyn y gellir galw'r holl Bartneriaethau Mentrau Lleol i gyfrif a chyn y gellir craffu ar eu gwaith yn effeithiol.	Dylai'r Adran bennu sut y mae'n mynd i asesu capasiti lleol i graffu ar weithgareddau Partneriaethau Mentrau Lleol a sut y bydd yn hwyluso atebolrwydd Partneriaethau Mentrau Lleol i'w hardaloedd lleol.
3	Ceir anawsterau sydd wedi hen sefydlu o ran gorgyffwrdd rhwng ffiniau daearyddol Partneriaethau Mentrau Lleol. Mae'r anawsterau hyn i fod i gael eu datrys erbyn mis Ebrill 2020.	Dylai'r Adran bennu amserlen glir yn dangos sut y bydd yn cwrdd â'r terfyn amser ym mis Ebrill 2020 a pha gamau y bydd yn eu cymryd pe bai awdurdodau lleol yn methu dod i gytundeb ynglŷn â ffiniau sy'n gorgyffwrdd.
4	Nid yw byrddau Partneriaethau Mentrau Lleol yn ddigon cynrychiadol eto o'u hardaloedd lleol.	O fewn y 12 mis nesaf, dylai'r Adran weithio gyda Phartneriaethau Mentrau Lleol i gytuno ar dargedau amrywiaeth ehangach ar gyfer byrddau Partneriaethau Mentrau Lleol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys targedau sy'n adlewyrchu cyfansoddiad busnesau lleol yn eu hardaloedd.
5	Mae Partneriaethau Mentrau Lleol yn parhau i danwario'r cyllid a ddyrennir iddynt bob blwyddyn, gan fwrw amheuaeth ar eu capasiti i gyflawni prosiectau cymhleth.	Dylai'r Adran ysgrifennu atom o fewn tri mis i nodi canlyniadau ei dadansoddiad o gapasiti Partneriaethau Mentrau Lleol a sut y bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r modd y mae Partneriaethau Mentrau Lleol yn cyflawni prosiectau cymhleth.
6	Ceir risg na fydd cyllid a ddyrennir ar sail strategaethau diwydiannol lleol o bosibl yn mynd i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.	Dylai'r Adran gynorthwyo Partneriaethau Mentrau Lleol i ddatblygu strategaethau diwydiannol lleol cadarn yn seiliedig ar anghenion economaidd eu hardaloedd, gan nodi'n glir sut y byddant yn sicrhau

		cydbwysedd rhwng cynorthwyo ardaloedd perfformiad uchel ac ardaloedd sydd ar ei hôl hi.
--	--	---

Atodiad B: Casgliadau allweddol adolygiadau eraill o Bartneriaethau Mentrau Lleol

Strategaeth

Rhaid i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyfuno ar Strategaethau Diwydiannol Lleol Partneriaethau Mentrau Lleol. Er mai'r bwriad yw y byddant yn ymateb i anghenion lleol, pennwyd pedwar maes gweithgaredd y dylid canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau dull cyson ar draws y rhwydwaith Partneriaethau Mentrau Lleol.

Monitro/Adrodd

Mae'n ofynnol i Bartneriaethau Mentrau Lleol lunio Cynllun Cyflawni blynyddol, gan adrodd i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt trwy gyfrwng adolygiad perfformiad blynyddol ac adroddiadau misol, fframweithiau gwerthuso ac adolygiadau monitro chwarterol pan ystyrir bod hynny'n briodol.

Mesurau perfformio

Yn 2016 nodwyd nad oedd amcanion penodol, mesuradwy ar gyfer cyflawniadau disgwylidig Bargeinion Twf wedi'u pennu. Roedd hyn yn golygu y byddai'n anodd asesu beth yr oeddynt wedi'i gyflawni. Heb amcan penodol yn ymwneud â'r hyn yr oeddynt yn gobeithio'i gyflawni, nid oedd yn glir ychwaith sut y penderfynwyd y byddai'r cyllid a roddwyd i'r Gronfa Twf Lleol yn ddigon.

Er mwyn gwella anghysonderau mewn Partneriaethau Mentrau Lleol o safbwynt cyflawni nodau buddsoddi, a sicrhau yr ystyrir bod gweithgareddau arfaethedig yn darparu popeth a ddisgwylir ganddynt, mae system fonitro ac adrodd fwy cyfarwyddol wedi'i chyflwyno dros amser.

Sanctiynau

Atal cyllid Partneriaethau Mentrau Lleol yw'r prif ddull o hyd o gywiro eu tanberfformiad neu eu diffyg cydymffurfiaeth. Gan nad yw Partneriaethau Mentrau Lleol yn gyrrff statudol, ni cheir yr un pwerau i ymyrryd ag a geir gydag awdurdodau lleol diffygiol.

Dyraniadau Cyllid

Mae Partneriaethau Mentrau Lleol yn wynebu heriau wrth gynllunio prosiectau cymhleth gyda dyraniadau cyllid blynyddol.

Llywodraethu

Cafodd Fframwaith Sicrhau Partneriaethau Mentrau Lleol ei sefydlu er mwyn darparu cyfarwyddyd yn ymwneud â'r hyn y mae angen i Bartneriaethau Mentrau Lleol ei gynnwys yn eu Fframweithiau Sicrhau Lleol eu hunain. Mae'n esbonio sut y dylai arfarnu, monitro a gwerthuso cynlluniau esgor ar werth am arian a rhoi'r sicrwydd

angenrheidiol i'r Llywodraeth, i randdeiliaid ac i'r cyhoedd fod gan Bartneriaethau Mentrau Lleol bolisiau a phrosesau mewn lle i sicrhau dull cadarn o stiwardio cronfeydd cyhoeddus.

Ym mis Ebrill 2019 lanswyd Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Sicrhau Twf Lleol a oedd yn cynnwys gofynion gorfodol yn ymwneud â llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder, ochr yn ochr ag arferion gorau a argymhellir. Ystyrir mai dyma'r safonau sylfaenol y dylai Partneriaethau Mentrau Lleol gadw atynt, a rhaid i Fframweithiau Sicrhau Lleol Partneriaethau Mentrau Lleol gydymffurfio â'r safonau hyn. Caiff cydymffurfiaeth Partneriaethau Mentrau Lleol ei hasesu yn ystod y broses perfformiad flynyddol.

Capasiti

Mae Partneriaethau Mentrau Lleol yn ddibynol ar bartneriaid awdurdodau lleol am staff ac arbenigedd. Mae'n hanfodol i Bartneriaethau Mentrau Lleol gael diffiniad clir o'u rôl a'u cylch gwaith, a bod yr holl sgiliau a'r holl adnoddau angenrheidiol wrth law i gyflawni'r gweithgareddau sy'n ddisgwyliedig ohonynt hwy a'u partneriaid preifat/awdurdodau lleol.

Gwahanu

Wrth gyflwyno arweinyddiaeth strategol dros dwf ar draws eu hardal, mae Partneriaethau Mentrau Lleol yn cyflawni rôl wahanol i sefydliadau llywodraeth leol unigol.

Ni fwriedir iddynt ddisodli na dyblygu sefydliadau busnes sy'n cynrychioli busnesau ar lefel leol, ac mae'n bwysig sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu diffinio, eu deall a'u cynnal.

Yn gysylltiedig â hyn, rhaid i'r rôl 'corff atebol' y mae awdurdod lleol yn mynd i'r afael â hi gael ei chyflawni gyda threfniadau aelodaeth priodol, gan gydnabod y rôl rheoli risgiau a'r rolau eraill y mae'r corff hwnnw'n eu cyflawni ar ran y Partneriaethau Mentrau Lleol.

Partneriaethau

Mae Partneriaethau Mentrau Lleol wedi bod yn llwyddiannus wrth bennu a dwyn ynghyd arweinwyr effeithiol yn y sectorau preifat a chyhoeddus, sy'n gweithredu fel hyrwyddwyr ar gyfer llwyddiant economaidd eu hardal. Hefyd, maent wedi creu partneriaethau newydd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar draws ffiniau gweinyddol daearyddol sy'n cynrychioli amrywiaeth busnesau a chymunedau lleol.

Ceir ymrwymiad i gynorthwyo Partneriaethau Mentrau Lleol er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth ar eu byrddau, a cheir targed o gael cynrychiolaeth gyfartal o ran y rhywiau erbyn 2023. Ar hyn o bryd, mae 27% o aelodau byrddau Partneriaethau Mentrau Lleol, ar gyfartaledd, yn fenywaidd.

Ffiniau Partneriaethau Mentrau Lleol

Gan fod Partneriaethau Mentrau Lleol wedi'u ffurfio'n wirfoddol a chan y gofynnwyd iddynt weithredu ar draws ardaloedd economaidd gweithredol, ceir gorgyffwrdd rhwng nifer ohonynt. Yn 2018, dywedwyd bod gorgyffwrdd o'r fath yn gwanhau atebolrwydd a chyfrifoldeb dros bennu strategaethau ar gyfer lleoedd.

Gwerthuso

Yn 2019 nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd unrhyw werthusiad wedi'i gynnal ar Gronfeydd Twf Lleol a roddir ar waith trwy gyfrwng Partneriaethau Mentrau Lleol i ganfod beth sy'n gweithio'n lleol ar gyfer ymyriadau mewn twf lleol yn y dyfodol, yn cynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU.

Atodiad C: Goblygiadau o ran cynllunio dull rhanbarthol Cymru

Dyma syniadau cychwynnol yn ymwneud â sut y gellid defnyddio casgliadau adolygiadau a gynhaliwyd ar Bartneriaethau Mentrau Lleol i gyfarwyddo dull cyflawni rhanbarthol Cymru. Maent yn cynnwys barn a fynegwyd yng nghyfarfod mis Mai y Grŵp hwn. Bydd mwy o fanylion yn cael eu datblygu fel rhan o waith yr is-grŵp Gweithredu a Chyflawni.

Strategaeth (h.y. Fframwaith Cenedlaethol a chynlluniau economaidd rhanbarthol):

- Dylai cynlluniau strategol gyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Dylid cael cysondeb mewn cynlluniau strategol a dylid rhoi ystyriaeth i fodel enghreifftiol ar gyfer cynllunio rhanbarthol a lleol.
- Dylai Cynlluniau Strategol allu dangos sut y bydd y blaenoriaethau neu'r gweithgareddau dangosol yn cael eu cyflawni.
- Dylai Strategaethau Rhanbarthol gael eu seilio ar anghenion economaidd eu hardaloedd a dylent nodi'n glir sut y byddant yn sicrhau cydbwysedd rhwng cymorth i ardaloedd perfformiad uchel ac ardaloedd sydd ar ei hôl hi.

Pennu nodau a gwaith monitro ac adrodd

- Dylid cytuno ar ganlyniadau disgwyledig a mesurau perfformiad clir a safonedig o'r cychwyn cyntaf fel y gellir gwerthuso dangosyddion twf mewn modd parhaus, cyson a chymharol, er mwyn sicrhau y bydd Buddsoddi Rhanbarthol yn y dyfodol yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.
- Bydd angen ystyried mwy ar gymelliadau a sancsiynau, yn cynnwys mesurau i ymdrin â thanberfformiad, fel cysylltiadau â chyllid neu swyddogaethau dirprwyedig.
- Dylai Cymru fod â fframwaith gwerthuso cadarn yn gynnar yn y broses fel y gellir asesu effeithiolrwydd yr hyn sy'n gweithio ar gyfer ymyriadau mewn twf rhanbarthol, a dysgu gwersi yn ei sgil.

Dyraniadau cyllid:

- Dylai dyraniadau cyllid ategu cynllunio mwy hirdymor a chyflawni canlyniadau clir, ystyried proffiliau gwario gwahanol (e.e. bydd oedi ar y cychwyn gyda seilwaith), ategu capasiti a dulliau rheoli perfformiad effeithiol (yn cynnwys monitro, gwerthuso a sicrhau), a chaniatáu ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw priodol.

Llywodraethu

- Dylai fod yn ofynnol cadw at godau ymddygiad sy'n seiliedig ar egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan (gweithredu er budd y cyhoedd, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd, arweinyddiaeth).
- Dylai graddfa a chwmpas angenrheidiol trefniadau llywodraethu a fframweithiau sicrhau ystyried lefel datganoli penderfyniadau a dirprwyaeth ariannol.
- Dylid datblygu fframwaith sicrhau cyffredin er mwyn sicrhau dull cyson, gydag atebolrwydd a chyfrifoldebau clir a phriodol drwyddo draw.
- Dylid ategu hyn gyda phrosesau monitro ac adrodd cadarn trwy gyfrwng strwythur atebolrwydd a rheoli pendant.
- Dylai penderfyniadau a wneir, gweithdrefnau a pherfformiad ariannol fod yn dryloyw, gyda dull adrodd cyffredin ac agored.
- Dylai cyrff rheoli ddarparu hyfforddiant cynefino a hyfforddiant parhaus yn ymwneud â'r gofynion a'r cyfrifoldebau.
- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r datganiad fod 'gwneud pobl yn fwy atebol yn ymwneud mwy â diwylliant a gweithredu gwirioneddol nag ydyw â chyfarwyddyd' a sut y gellir gwneud yn fawr o hyn.
- Dylai cofrestri buddiannau a pholisïau cyhoeddedig ar reoli gwrthdaro buddiannau fod yn ofynnol. Hefyd, dylid cael polisi "chwythu'r chwiban" wedi'i hyrwyddo, ynghyd â threfniadau ar gyfer cofnodi mewn modd cyfrinachol honiadau gan drydydd parti/y cyhoedd yn ymwneud â phryderon anffafriol.
- Dylai trefniadau llywodraethu gynorthwyo a hwyluso'r arfer o weithio mewn partneriaeth a chydgysylltu rhwng lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Capasiti a phartneriaethau

- Rhaid asesu ac ymdrin â chapasiti a gallu sefydliadau i gyflawni disgwyliadau cyn dirprwyo unrhyw gyfrifoldebau.
- Dylid pennu cyllid priodol, a'i roi ar waith, er mwyn darparu cymorth ar gyfer adeiladu capasiti a chyflawni'n barhaus, mewn modd sy'n berthynol i lefelau cyllid a reolir.
- Dylai rolau, gofynion a chyfrifoldebau sefydliadau sy'n gysylltiedig â dull rhanbarthol o ymdrin â thwf fod yn glir ac yn fesuradwy o'r cychwyn cyntaf.
- Dylid gwneud gwaith pellach i sefydlu'r ffactorau hollbwysig mewn perthynas â chael partneriaethau llwyddiannus ar gyfer twf rhanbarthol effeithiol.

- Dylai trefniadau gweithredu gynorthwyo cyfleoedd i ymgysylltu ynglŷn â materion trawsranbarthol a helpu i osgoi dyblygu a chystadleuaeth anffuddiol rhwng rhanbarthau.
- Rhaid i bartneriaethau fod yn gynrychiadol gan osgoi cael eu 'dal' gan unrhyw sector neu gyfranogwr penodol, a dylent allu canfod a rheoli gwrthdaro buddiannau'n glir.
- Dylai Cymru ddatblygu cynllun i annog amrywiaeth wrth gynllunio ymyriadau rhanbarthol ac wrth wneud penderfyniadau yn eu cylch, er mwyn i'r dulliau penderfynu gynrychioli'r ardal leol.
- Dylid osgoi achosion o orgyffwrdd ffiniau daearyddol, fel na fydd yr atebolrwydd na'r cyfrifoldeb dros bennu strategaethau ar gyfer lleoedd yn cael eu gwanhau.